Cyngor Bwrdeistraf Sirol Merthyr Tudful
Adran Refeniw, Y Ganolfan Ddinesig,
Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
Rhif Ffon: (01685) 725000
E-bost: Revenues@Merthyr.gov.uk

# Gwybodaeth ar gyfer

# Ardrethi Busnes 2018/2019

Datganiad i ategu hysbysiadau galw am dalu Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig 2018/2019

**GWARIANT REFENIW** - Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn bwriadu gwario £117,460,744 yn 2018/2019 ac mae wedi cymeradwyo'r gyllideb ganlynol:

| | £'000 |
|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant | 117,461 |
| Grant Cynnal Refeniw | -71,391 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | -18,914 |
| **Y Gwariant Net i'w dalu amdano drwy'r Dreth Gyngor** | **27,156** |

**ARDOLL TRETH CYNGOR 2018/2019 YM MAND D**

Sylfaen y Dreth Gyngor - ar gyfer 2018/2019  £18,098.08 yw nifer yr eiddo sy'n cyfateb i Band D.

| **Yr Awdurdod sy'n Codi'r Ardoll** | **£** |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 1,500.47 |
| Awdurdod Heddlu De Cymru | 233.52 |
| **Treth Cyngor Band D yn Ardal Merthyr Tudful** | **1,733.99** |

Yn ychwanegol, mae Cyngor Cymuned Bedlinog wedi dyroddi praesept o £22,000 sy'n dâl cyfatebol Band D o £19.16 yn Ardal y Cyngor Cymuned.

Cyfrifir symiau unigol o Dreth Gyngor fel lluosydd o'r tâl Band D. Mae'r symiau ar gyfer pob band prisio fel a ganlyn:

| Band Prisio Treth Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Y Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru | Cyfanswm Ardal Merthyr Tudful | Cyngor Cymuned Bedlinog | Cyfanswm Ardal Bedlinog |
|---|---|---|---|---|---|
| A (6/9) | 1,000.31 | 155.68 | **1,155.99** | 12.77 | **1,168.76** |
| B (7/9) | 1,167.03 | 181.63 | **1,348.66** | 14.90 | **1,363.56** |
| C (8/9) | 1,333.75 | 207.57 | **1,541.32** | 17.03 | **1,558.35** |
| D (9/9) | 1,500.47 | 233.52 | **1,733.99** | 19.16 | **1,753.15** |
| E (11/9) | 1,833.91 | 285.41 | **2,119.32** | 23.42 | **2,142.74** |
| F (13/9) | 2,167.35 | 337.31 | **2,504.66** | 27.68 | **2,532.34** |
| G (15/9) | 2,500.78 | 389.20 | **2,889.98** | 31.93 | **2,921.91** |
| H (18/9) | 3,000.94 | 467.04 | **3,467.98** | 38.32 | **3,506.30** |
| I (21/9) | 3,501.10 | 544.88 | **4,045.98** | 44.71 | **4,090.69** |

## CRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN

Rhaid i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol gadw cronfeydd ariannol wrth gefn ar gyfer gwariant annisgwyl ac er mwyn lleihau'r angen i fenthyca arian dros dro yn ystod y flwyddyn. Amcangyfrifir ar 1 Ebrill 2018 y bydd ein cronfeydd ariannol yn dod i gyfanswm o £4.60 miliwn, gyda'r balans yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2019.

## AMCANGYFRIFON REFENIW 2018 / 2019 Y CYNGOR BWRDEISTREF SIROL


| **Y Gronfa Gyffredinol** | **£000** | **£000** |
|---|---|---|
| **Ardollau amcangyfrifedig i'w casglu ar ran Asiantaethau eraill** | | |
| Y Gwasanaeth Tân | 2,773 | |
| Y Crwneriaid | 98 | |
| Archifdy Morgannwg | 41 | |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 41 | 2,953 |
| **Gwariant Cyfarwyddiaethau'r Cyngor** | | |
| Pobl a Pherfformiad | | 77,250 |
| Lleoedd a Gweddnewid | | 22,183 |
| Costau Corfforaethol | | 19,038 |
| Llai: Ad-daliadau | | -2,035 |
| Llai: Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | | -1,928 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | | **117,461** |

## GWARIANT CYFALAF

Mae cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol 2003 wedi arwain at newid yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyfrifo swm y gwariant cyfalaf y maent yn gallu ei gynnal. Mae set o ddangosyddion, a elwir Dangosyddion Prudential, yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r swm hwn.

Ar gyfer 2018/2019 mae Dangosyddion Prudential yn dangos cyfanswm gwariant cyfalaf o £10,923 miliwn.

Gellir gweld manylion gwariant Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru ar [www.Merthyr.gov.uk](http://www.Merthyr.gov.uk) ar y dudalen Treth y Cyngor - Hysbysiad Blynyddol. Os hoffech dderbyn copi caled o'r wybodaeth hon cysylltwch â'r Adran Gyllid ar (01685) 725000 neu anfonwch ebost: [Revenues@merthyr.gov.uk](mailto:Revenues@merthyr.gov.uk).




## GWYBODAETH SY'N ESBONIO'CH HYSBYSIADAU GALW AM DALU

Mae'r wybodaeth a roddir isod yn esbonio rhai o'r termau y gellir eu defnyddio ar hysbysiad galw am dalu ardrethi annomestig ac yn yr wybodaeth ategol.
Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig oddi wrth yr awdurdodau bilio.

## ARDRETHI ANNOMESTIG

Caiff yr ardrethi annomestig eu casglu gan yr awdurdodau bilio a'u talu i mewn i gronfa ganolog ac yna eu hailddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau heddlu. Bydd eich cyngor a'ch awdurdod heddlu yn defnyddio eu cyfran hwy o'r incwm o'r ardrethi a ailddosberthir, ynghyd ag incwm o'u talwyr Treth Cyngor, y grant cynnal refeniw sy'n cael ei ddarparu gan Llywodraeth Cymru a symiau penodol eraill, er mwyn talu am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

## GWERTH ARDRETHOL

Mae gwerth ardrethol eiddo annomestig wedi ei sefydlu yn y rhan fwyaf o achosion gan swyddog gwerthuso annibynnol o'r Asiantaeth Swyddfa Gwerthuso. Mae pob eiddo annomestig wedi cael ei adbrisio o 1 Ebrill 2017, mae gwerth ardrethol eiddo yn cynrychioli ei werth rhentu blynyddol ar y farchnad agored fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2015.

## Y LLUOSYDD ARDRETHU ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Hon yw'r ardreth yn y bunt a ddefnyddir i luosi'r gwerth ardrethol er mwyn cael y bil ardrethu blynyddol ar gyfer eiddo. Mae'r lluosydd, sy'n cael ei bennu bob blwyddyn gan Llywodraeth Cymru, ac sydd wedi'i bennu'n **0.514c ar gyfer 2018/2019**, yr un fath ar gyfer Cymru gyfan. Ac eithrio mewn blwyddyn ailbrisio, ni all y lluosydd godi a mwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu.

**For example:**
Rateable Value 20,000 x Multiplier 0.514 = Rate Bill £10,280
You can estimate your business rates using the Government Website

## GWIRIWCH EICH GWERTH ARDRETHOL

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r gwerth ardrethol sy'n cael ei ddarparu gan Asiantaeth y Swydffa Brisio I gyfrifo'ch bil Ardrethi Busnes. Gallwch wirio'ch gwerth ardrethol a'i gymharu ag eraill ar wefan yr Asianteath yn www.tax.service.gov.uk/view-my-valuation/search. Gallwch gysylltu a hwy hefyd os bydd arnoch angen rhoi gwybod iddynt am unrhyw fater.

Yn achos eiddo cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, mae'r gwerth ardrethol yn ymwneud â'r rhan annomestig yn unig. Dangosir gwerth pob eiddo y mae ardrethi yn daladwy i'ch awdurdod ar eu cyfer ar y rhestr ardrethu leol, sydd i'w gweld ar wefan VOA ar www.tax.service.gov.uk/view-my-valuation/search.

## NEWID I'R GWERTH ARDRETHOL

Gallai'r gwerth ardrethol addasu os yw'r swyddog prisio o'r farn fod amgylchiadau'r eiddo wedi newid.

## PWY ALL WNEUD CAIS

I bob pwrpas mae'r hawl hwn wedi ei gyfyngu i'r perchennog neu ddeiliad i, neu bersonau sydd â buddion cyfreithiol penodol yn yr eiddo o dan sylw ar y dyddiad y cafodd y cynnig ei wneud. Yn ychwanegol, gall cyn-dalwr trethi o'r eiddo sydd am herio addasiad a wnaed i restr gyfraddiad gan y Swyddog Prisio ar gyfer cyfnod pan mai hwynt-hwy oedd yn talu trethi, ac mewn rhai amgylchiadau'r awdurdod bilio, wneud cynnig hefyd.

## CYNIGION AC APELIADAU

O 1 Ebrill 2017, cafodd newidiadau pwysig eu gwneud i'r rheolau sy'n amgylchynu gwneud cynigion neu apeliadau yn erbyn gwerthoedd ardrethol, ac mae gwybodaeth am y newidiadau ar gael oddi wrth y Swyddog Prisio lleol neu www.gov.uk/business-rate-appeals.

Gellir cael gwybodaeth bellach am drefniadau apelio oddi wrth Brif Brisiwr Cymru a Swyddog Prisio, Trethi Annomestig Cymru, Asiantaeth Swyddfa Brisio, Tŷ Rhodfa, Heol Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5GR.
Rhif Ffôn: 03000 505505.

Os nad ydych chi'n cytuno â chanlyniad y trafodaethau fe allwch, mewn amgylchiadau penodol, apelio.

## THE APPEALS PROCESS

There are 3 main stages in the process:

1. Submit an appeal to alter the rating providing evidence about why you think your valuation is wrong.
2. Formal discussions where your evidence to support your view will be reviewed and facts agreed.
3. Present your case to a Valuation Tribunal for Wales if it's not possible to resolve your appeal through discussion with the VOA.

This process is free of charge and can be undertaken by yourself.

You may complete a proposal for most purposes online. This has the advantage of ensuring that your proposal relates to the correct list entry and you can receive virtually immediate email acknowledgement of receipt. [https://www.gov.uk/guidance/how-to-check-and-challenge-your-rateable-value-in-wales](https://www.gov.uk/guidance/how-to-check-and-challenge-your-rateable-value-in-wales)

## RHYDDHAD ARDRETHI AR EIDDO GWAG

Nid oes angen talu ardrethi busnes ar eiddo busnes gwag am 3 mis ar ôl i'r eiddo ddod yn wag. Mae eithriadau ychwanegol ar gyfer mathau penodol o eiddo, neu eiddo â gwerth ardrethol sy'n llai na lefel benodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- safleoedd diwydiannol, fel warysau, sy'n cael eu heithrio am 3 mis pellach
- adeiladau rhestredig sy'n cael eu heithrio nes iddynt gael eu meddiannu eto
- adeiladau â gwerth ardrethol o lai na £2,600 sy'n cael eu heithrio nes iddynt gael eu meddiannu eto
- safleoedd sy'n eiddo i elusennau, sy'n cael eu heithrio os yw'r defnydd nesaf a wneir ohonynt yn debygol o fod yn llwyr neu'n bennaf at ddibenion elusennol
- adeiladau clybiau chwaraeon amatur cymunedol sy'n cael eu heithrio os yw'r defnydd nesaf a wneir ohonynt yn debygol o fod yn llwyr neu'n bennaf at ddibenion clwb chwaraeon
- busnesau dan berchnogaeth cwmni sy'n cydymffurfio â'r gorchymyn dirwyn i ben a wneir dan Ddeddf Ansolfedd 1986, neu sy'n cael eu dwyn i ben yn wirfoddol dan y Ddeddf honno
- busnesau dan berchnogaeth cwmni sydd yn nwylo'r gweinyddwyr o fewn ystyr paragraff 1 o Atodlen B1 i Ddeddf Ansolfedd 1986 neu sy'n ddarostyngedig i orchymyn gweinyddu a wnaed o dan y darpariaethau gweinyddu blaenorol o fewn ystyr erthygl 3 o Orchymyn Deddf Menter 2002 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2003
- busnes y mae gan y perchennog hawl i feddiant yn rhinwedd ei ddyletswydd fel cynrychiolydd personol person ymadawedig yn unig

Ar ôl i'r cyfnod eithrio ddod i ben, byddwch yn gorfod talu'r bil ardrethi busnes llawn.

Dylech roi gwybod i'ch awdurdod lleol pan ddaw eiddo'n wag a hefyd pan fydd yn cael ei ail-feddiannu.

**RHYDDHAD ARDRETHI BUSNESAU BACH YNG NGHYMRU**

Daeth cynllun newydd parhaol i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhyddhad ardrethi annomestig i fusnesau bach cymwys.

- bydd safleoedd busnes cymwys sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100%
- bydd y rheini sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar raddfa a fydd yn gostwng o 100% i sero

Bydd y mathau isod o fusnesau yn cael rhyddhad ardrethi fel a ganlyn:

**Safle Gofal Plant Cofrestredig**

- bydd safle gofal plant cofrestredig sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100%
- bydd y rheini sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £20,500 yn cael rhyddhad ar raddfa o 100% i sero

**Swyddfeydd Post**

- bydd Swyddfeydd Post sydd â gwerth ardrethol hyd at £9,000 yn cael rhyddhad o 100%
- bydd y rheini â gwerth ardrethol rhwng £9,001 a £12,000 yn cael rhyddhad o 50%

**Terfyn Amlfeddiannaeth**

Os yw talwr ardrethi yn gyfrifol am fwy na dau eiddo ar un rhestr ardrethi annomestig leol (“rhestr leol”), ac mai dim ond yr amodau gwerth ardrethol y mae’r eiddo yn eu bodloni, bydd y talwr ardrethi yn cael rhyddhad ar gyfer uchafswm o ddau eiddo o’r fath yn unig.

| **Brasamcan o rai o’r gwahanol gyfraddau o ryddhad** | | | |
|---|---|---|---|
| Gwerth Ardrethol (£) | % Rhyddhad | Gwerth Ardrethol (£) | % Rhyddhad |
| 0 – 6,000 | 100 | 9,000 | 50 |
| 7,000 | 83.4 | 10,000 | 33.3 |
| 8,000 | 66.6 | 11,000 | 16.6 |

## RHYDDHAD TROSIANNOL

Yn dilyn ymarfer ailbrisio ardrethi annomestig 2017 gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, bydd rhyddhad trosiannol yn cael ei weithredu er mwyn cefnogi trethdalwyr y bydd yr ailbrisio yn cael effaith ar eu cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (SBRR).

Bydd y cynllun rhyddhad trosiannol yn cael ei gyflwyno i roi cymorth i drethdalwyr fydd yn derbyn Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar 31 Mawrth 2017, a fyddai'n gweld gostyngiad yng nghanran y Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach y mae ganddynt hawl iddo ar 1 Ebrill 2017, oherwydd bod eu gwerthoedd ardrethol wedi cynyddu yn dilyn yr ailbrisio.

Bydd Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn cael ei gymhwyso cyn rhyddhad trosiannol. Bydd y rhyddhad trosiannol yn gweithio drwy gyflwyno unrhyw gynnydd mewn atebolrwydd dros gyfnod o 3 blynedd (25% o gynnydd mewn atebolrwydd ym mlwyddyn 1, 50% ym mlwyddyn 2 a 75% ym mlwyddyn 3).

Y trethdalwyr a fyddai'n gymwys fydd:

- trethdalwyr yn symud o SBRR llawn i SBRR rhannol
- trethdalwyr yn symud o SBRR llawn i ddim SBRR
- trethdalwyr yn symud o SBRR rhannol i ddim SBRR
- aros o fewn SBRR rhannol, ond yn gweld cynydd mewn gwerth ardrethol

## RHYDDHAD ARDRETHI'R STRYD FAWR

Nod Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr, sy'n werth £5 miliwn, yw helpu manwerthwyr y stryd fawr yng Nghymru, fel siopau, tafarnau, bwytai, a chaffis, gan gynnwys y manwerthwyr hynny y mae eu hardrethi wedi codi o ganlyniad i ailbrisiad Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn 2017.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dwy haen o ryddhad ardrethi'r stryd fawr, sef hyd at £250 (Haen 1) neu hyd at £750 (Haen 2), ar gyfer manwerthwyr cymwys y stryd fawr sy'n gweithredu o eiddo sydd â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai ym mlwyddyn ariannol 2018-19, yn amodol ar derfynau Cymorth Gwladwriaethol.

Haen 1 – eiddo sy'n bodloni meini prawf y stryd fawr ac sy'n cael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach neu Ryddhad Trosiannol ar 1 Ebrill 2017.

Haen 2 – eiddo sy'n bodloni meini prawf y stryd fawr nad ydynt yn cael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach na Rhyddhad Trosiannol ar 1 Ebrill 2017, ac sydd hefyd yn gweld cynnydd yn eu hatebolrwydd o ganlyniad i ailbrisiad 2017.

Yr awdurdod lleol fydd yn penderfynu pryd i ganiatáu rhyddhad ardrethi, gan ystyried pob achos yn unigol, a bydd y rhyddhad hwnnw ar gael o 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019.

Cewch lawrlwytho'r wybodaeth am Gynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr. Mae rhagor o fanylion am y meini prawf cymhwysedd yn y canllawiau hyn.

## RHYDDHAD ELUSENNOL A DISGRESIYNOL

Mae gan elusennau hawl i gael rhyddhad rhag talu ardrethi ar gyfer unrhyw eiddo annomestig sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol. Mae rhyddhad yn cael ei roi yn ôl 80% o'r bil ardrethu, ac mae gan awdurdodau bilio ddisgresiwn i ddileu'r cyfan neu ran o'r 20% sy'n weddill o fil elusen am eiddo o'r fath.

Yn ychwanegol at hyn ac o 1 Ebrill 2004 ymlaen, rhoddir rhyddhad gorfodol rhag talu ardrethi o 80% i glybiau chwaraeon amatur cymunedol (CChAC, ar yr amod bod y clybiau wedi'u diffinio a'u cofrestru fel y cyfryw gyda Chyllid y Wlad. Gellir canfod gwybodaeth am y CChAC ar wefan Cyllid y Wlad: www.hmrc.gov.uk/index.htm

**RHYDDHAD CALEDI ARDRETHI BUSNES**

Mae Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn rhoi'r disgresiwn i awdurdodau bilio (y Cyngor) leihau neu ddychwelyd taliad ardrethi i unrhyw un sy'n talu ardrethi. Gall y Cyngor wneud hynny ble mae'n fodlon y byddai'r talwr ardrethi'n dioddef caledi pe na bai'n gwneud hynny, a'i bod yn rhesymol i wneud hynny, gan roi ystyriaeth i fuddiannau'r rhai sy'n talu Treth y Cyngor.

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo polisi Rhyddhad Caledi Ardrethi Busnes ar y 7 Tachwedd 2012. Mae'r polisi'n amlinellu'r meini prawf cymhwyster ac, os hoffai busnesau wneud cais, gellir darparu'r polisi a ffurflen gais trwy wneud cais i'r Adran Gyllid ar 01685 725239.

**EIDDO HANANDDARPAR**

Os yw eich eiddo yng Nghymru ac ar gael i'w osod yn fasnachol fel eiddo hunanddarpar yna bydd yn cael ei raddio ac yn cael gwerth ar gyfer ardrethi annomestig, ar yr amod y bodlonir meini prawf penodol. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn cyfrifo'r gwerth ardrethol yn seiliedig ar y math o eiddo, ei faint a'i leoliad.

O 1 Ebrill 2010 ymlaen yng Nghymru, mae eiddo hunanddarpar yn cael ei gyfrif fel eiddo annomestig, ac felly yn gorfod talu ardrethi annomestig, os yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn fodlon:

- bod yr eiddo ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanddarpar am gyfnodau byr sy'n dod i gyfanswm o 140 diwrnod neu ragor yn y 12 mis canlynol
- bod buddiant y trethdalwr yn yr eiddo yn ei alluogi i'w rentu am gyfnodau o'r fath
- y bu'r eiddo, yn y 12 mis cyn yr asesiad, ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanddarpar am gyfnodau byr sy'n dod i gyfanswm o 140 diwrnod neu ragor
- bod y cyfnodau byr y'i gosodwyd yn fasnachol mewn gwirionedd yn dod i gyfanswm o 70 diwrnod o leiaf yn ystod y cyfnod hwnnw

O 1 Ebrill 2016 ymlaen yng Nghymru, bydd y meini prawf uchod yn parhau i fod yn gymwys, ond mae darpariaeth newydd hefyd yn cael ei chyflwyno fel bod:

- busnesau sy'n cynnwys sawl eiddo hunanddarpar yn yr un lleoliad neu yn agos iawn at ei gilydd yn cael yr opsiwn i rannu ar gyfartaledd nifer y diwrnodau y caiff yr holl adeiladau eu gosod i fodloni'r maen prawf o 70 diwrnod os mai yr un busnes neu fusnesau cysylltiedig sy'n eu gosod

Gallwch gael cyngor ac arweiniad llawn ar asesu eiddo hunanddarpar yng Nghymru yn y llyfryn hwn.

**PROSIECTAU YNNI DŴR**

Rydym yn rhoi grantiau i helpu prosiectau ynni dŵr cymwys i dalu eu hardrethi busnes. Mae prosiectau o'r fath yn defnyddio ynni o gyrsiau dŵr i gynhyrchu trydan. Gall prosiectau ynni dŵr sydd â gwerth ardrethol hyd at £50,000 ymgeisio am gymorth ar gyfer 2017-18 (cais ôl-weithredol) ac ar gyfer 2018-19. I gael rhagor o wybodaeth ac i gyflwyno cais, gweler Cymorth ardrethi (busnes) annomestig ar gyfer ynni dŵr.

## ARDRETHI BUSNES – GWYBODAETH I GWSMERIAID

### Gellir gwneud taliadau:

a. Yn Llwyn ar neu cyn $1^{af}$ Ebrill
b. Mewn Dau rhandaliad ar $1^{af}$ Ebrill ac on $1^{af}$ Hydref
c. Mewn Deg neu Ddeuddeg rhandaliad misol o $1^{af}$ Ebrill

### Dulliau Talu

**Debyd Uniongyrchol**

Gallwch dalu'ch Ardrethi Busnes drwy Ddebyd Uniongyrchol ar y 1af, y 10fed neu'r 20fed o'r mis, gallwch dalu mewn 10 neu 12 o randaliadau. I dalu drwy ddefnyddio'r dull hwn, cysylltwch â'r Adran Refeniw ar 01685 724555 a byddwn yn nodi'ch manylion ac yn sefydlu'r mandad ar eich cyfer.

**Canolfan Ddinesig**

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cabanau talu Arian Parod a Chardiau yn y dderbynfa yn y Ganolfan Ddinesig. Mae'r rhain wedi cymryd lle'r gwasanaeth arianwyr.

Os nad ydych am dalu yn y Ganolfan Ddinesig gallwch wneud taliadau yn defnyddio'r dulliau canlynol:

**Taliadau BACS**

Banc Barclays Plc, 47 Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DL
Rhif Cyfrif: 63519732
Rhif Didoli: 20-56-56
*Dyfynnwch Gyfeirnod Cyfrif Cyfraddau Busnes

**Ffôn**



Talwch dros y ffôn yn defnyddio'r Llinell Taliad Awtomatig, sydd ar gael ar (01685) 725115, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Bydd angen i chi roi manylion eich cerdyn, eich rhif cyfrif a'r cyfanswm yr hoffech ei dalu

Gellir defnyddio'r system hon hefyd i dalu Anfonebau a Threth y Cyngor.

Swyddfeydd Post, a mannau Paypoint

Gallwch ddefnyddio eich dogfen â chod bar i dalu Ardrethi Busnes mewn unrhyw Swyddfa Bost neu fannau Pwynt Talu. Mae rhestr o'r holl fannau sy'n derbyn eich cerdyn ar gael trwy ddilyn y ddolen Ardrethi Busnes ar www.merthyr.gov.uk

E-daliadau

Talwch eich Ardrethi Busnes ar lein, drwy ddilyn y cyfarwyddiadau yn "Gwneud ar-lein" ar dudalen hafan www.merthyr.gov.uk

Mae mwy o fanylion am yr holl ddulliau talu ar gael o Swyddfa'r Refeniw ar 01685 725239, drwy anfon e-bost at revenues@merthyr.gov.uk neu drwy ddilyn y ddolen Ardrethi Busnes yn www.merthyr.gov.uk

Yn ogystal, gallwch dalu eich Anfonebau, Treth Cyngor a Gordaliadau Budd-daliad Tai yn defnyddio unrhyw un o'r dulliau uchod.

Cyswllt Cwsmer

Bydd e-filio yn eich galluogi chi i gael mynediad at eich bil a hysbysiadau adfer dros y we, drwy'r platfform digidol diogel newydd Mynediad i Ddinasyddion, gan ddefnyddio eich ffôn symudol, tabled a chyfrifiadur. Caiff y dechnoleg newydd hon ei chyflwyno yn fuan.

SMS – Negesydd

Os ydych am arwyddo i gyfathrebu drwy negesydd SMS ar gyfer cael eich atgoffa i dalu yna anfonwch e-bost i Revenues@Merthyr.gov.uk <mailto:Revenues@Merthyr.gov.uk> gyda'r pennawd "AMA". Noder: bydd yn ofynnol i chi ddarparu rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth hwn

**Canolfan Gyswllt**

Mae'r Ganolfan Gyswllt newydd yn y Ganolfan Ddinesig ar gael i gwsmeriaid alw heibio i weld aelod o staff yn ystod oriau agor arferol (gweler yr oriau agor isod) a thrafod materion sy'n ymwneud â'r Dreth Gyngor, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Ardrethi Busnes, Ardrethi Ardal Gwella Busnes (BIDS) neu Wahanol Ddyledion.

**Oriau Agor**

ARDRETHI BUSNES

| | |
|---|---|
| Dydd Llun: | 8:30 – 4:45 |
| Dydd Mawrth: | 8:30 – 4:45 |
| Dydd Mercher: | 8:30 – 4:45 |
| Dydd Iau: | 8:30 – 4:45 |
| Dydd Gwener: | 8:30 – 4:15 |